



06

Y Gymraeg

Pa un a ydych chi'n siarad Cymraeg yn rhugl neu beidio, mae defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn gallu bod yn arf marchnata cadarnhaol i'ch busnes. Mae ymwelwyr yn aml yn chwilfrydig am y Gymraeg ac mae'n gallu ychwanegu dimensiwn newydd ac unigryw i'w harhosiad gyda chi wrth iddyn nhw ddarganfod ac archwilio etifeddiaeth a diwylliant gwahanol.



Marchnata'n ddwyieithog

Mae natur unigryw'r Gymraeg yn cynnig gwerth brand a manteision posib i fusnesau yn y sector twristiaeth. Bydd cwsmeriaid yn aml yn edrych am ymdeimlad o hunaniaeth fydd yn eich gwneud chi'n wahanol i fusnesau eraill, a dyma lle mae gwerth dwyieithrwydd yn eich busnes yn gallu dod yn amlwg.

Os oes rhai o'ch staff yn gallu siarad Cymraeg, cam cyntaf da yw iddyn nhw wisgo bathodynau sy'n atgoffa pobl eraill eu bod yn hapus i sgwrsio yn Saesneg neu Gymraeg. Hefyd gwnewch y gorau o unrhyw ddigwyddiadau diwylliannol, fel Dydd Gŵyl Dewi.

Os oes gennych chi wefan ddwyieithog, mae'n bwysig fod yr iaith a'r gramadeg yn gywir yn y ddwy iaith. Os nad ydych chi'n siŵr, mae'n werth ceisio arweiniad proffesiynol - byddai hynny'n well na rhoi argraff anghywir o'ch busnes ac efallai droi darpar gwsmeriaid i ffwrdd. Mae gwasanaethau cyfieithu ac ysgrifennu copi proffesiynol ar gael yn lleol yng Ngheredigion.

Enghreifftiau da

Mae Tŷ Nant, Chwisgi Penderyn a Llaeth y Llan i gyd yn frandiau adnabyddus a llwyddiannus sydd wedi defnyddio'r Gymraeg i wthio eu busnesau ymhellach. Yn wir, ar ôl cyfnod o dwf gwastad yn 2011, penderfynodd Llaeth y Llan newid yn ôl i fod yn ddwyieithog, ac arweiniodd hyn at gynnydd o 15% yn eu trosiant. Yn gryno, bydd defnyddio'r Gymraeg fel elfen allweddol yn eich brand yn tynnu sylw atoch chi - bydd yn eich gwneud chi'n unigryw! Ceisiwch ddysgu ystyr unrhyw eiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r busnes, neu hyd yn oed y lleoliad - mae enwau Cymraeg yn aml yn swyno, gan ddisgrifio'r lleoliad neu nodwedd arbennig ynddo, a gall hyn helpu i ddatblygu delwedd neu frand eich busnes.

Gall marchnata drwy gyfrwng y Gymraeg agor drysau i farchnadoedd newydd a gall hyd yn oed y brandio a marchnata dwyieithog mwyaf sylfaenol fod o fudd i'ch cwmni drwy gynnig elfen wahanol gystadleuol. Mae Foras na Gaeilge - y corff sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r iaith Wyddeleg drwy Iwerddon - wedi nodi bod yr iaith Wyddeleg wedi ychwanegu pwynt gwerthu unigryw i fusnesau yn Iwerddon mewn nifer o ffyrdd, drwy frandio a marchnata, yn enwedig cyfathrebu gweledol, deunyddiau corfforaethol (papur swyddogol, cardiau busnes, anfonebau ac ati), arwyddion (mewnol ac allanol) a deunyddiau marchnata (print ac electronig). O ganlyniad, mae llawer wedi manteisio ar ddefnyddio'r Wyddeleg, beth bynnag yw lefel rhuglder y staff neu'r cleientiaid.

Gwnewch y gorau o ddigwyddiadau perthnasol, fel diwrnod S'mae, Shwmae, neu Ddydd Gŵyl Dewi, nid yn unig i ddangos ochr ysgafn, hwyliog, ond hefyd i gyrraedd cynulleidfa Gymraeg ei hiaith yn haws. Rhwng 8pm a 9pm ar nosweithiau Mercher, gallwch fanteisio ar yr Awr Gymraeg ar Twitter, a bydd defnyddio #yagym mewn trydariad Cymraeg yn gwarantu ail-drydar gan y gwasanaeth wythnosol hwn.

Gwybodaeth a chymorth

Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau i helpu busnesau i weithredu'n ddwyieithog yng Nghymru. Ewch i'w tudalen i weld sut y gallwch chi ddefnyddio'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn ffordd fanteisiol i'ch busnes:

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

Gwasanaethau Cyfieithu

Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru yw cymdeithas broffesiynol cyfieithwyr Cymraeg ac mae hefyd yn cynnig cyngor ymarferol, ynghyd â rhestr o gyfieithwyr cymeradwy:

<https://www.cyfieithwyrwymru.org.uk/cy/>

Cerdyn geirfa Gymraeg

http://www.shwmae.cymru/?page_id=462&lang=en

Cysgliad

Pecyn meddalwedd yw Cysgliad sy'n cynnwys dwy brif raglen: Cysill – sy'n gwirio gramadeg a sillafu; Cysgeir – geiriadur digidol. Gallwch brynu Cysgliad o'r wefan, neu, gallwch ddefnyddio Cysill ar-lein.

Geiriaduron Ar-lein

Ceir amrywiol eiriaduron Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg ar-lein. Y mwyaf nodedig yw Geiriadur yr Academi, Y Termiadur Addysg a'r Gweiadur. Gall offerynnau fel Google translate fod yn ddefnyddiol ar gyfer geiriau unigol neu gymalau byr, ond gwnewch yn siŵr ei fod yn gwneud synnwyr i siaradwr Cymraeg bob tro. Dyw idiomau ddim yn cyfieithu'n dda fel arfer, ac mae gan rai geiriau fwy nag un ystyr, gan ddibynnu ar y cyd-destun.

Awgrym Ceisiwch gyfieithu'r ystyr, yn hytrach na phob gair yn llythrennol, ac fel prawf cyflym, ceisiwch ei gyfieithu'n ôl i'r iaith wreiddiol. I gael cyfieithiadau o enwau llefydd yng Nghymru, ewch i Enwau Cymru.

http://www.e-gymraeg.org/enwaucymru/chwilio_en.aspx